OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2009 Rhif 3265 (Cy.286)

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

## Rheoliadau Deddf Plant 1989 (Diwygio Rheoliadau Amrywiol) (Rhif 2) (Cymru) 2009

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *9 Rhagfyr 2009* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *10 Rhagfyr 2009* |
| *Yn dod i rym - -* | *20 Ionawr 2010* |

Mae Gweinidogion Cymru'n gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pŵer a roddwyd iddynt gan adrannau 79C a 104(4) o Ddeddf Plant 1989.(**1**)

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Plant 1989 (Diwygio Rheoliadau Amrywiol) (Rhif 2) (Cymru) 2009 a deuant i rym ar 20 Ionawr 2010.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

**Diwygio Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2002**(**2**)

**2.**—(1) Diwygir Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2002 yn unol â darpariaethau canlynol y rheoliad hwn.

(2) Yn rheoliad 2(1) yn y diffiniad o "corff" ("*organisation*") ar ôl "corff corfforaethol" ychwaneger "neu gymdeithas anghorfforedig".

(3) Yn rheoliad 4(2)(b)(i) ar ôl "un o'i swyddogion eraill" ychwaneger "os corff corfforaethol neu swyddog neu aelod o gorff llywodraethu pan fo'r corff yn gymdeithas anghorfforedig yw'r corff hwnnw".

(4) Ar ddiwedd Atodlen 3 ychwaneger—

> "(14) Enw, cyfeiriad cartref a Rhif ffôn pob aelod cyfredol o bwyllgor neu gorff llywodraethu cymdeithas anghorfforedig."

(**1**) 1989 p.41. Mewnosodwyd adran 79C gan adran 79 o Ddeddf Safonau Gofal 2000 (p.14).
(**2**) **O.S. 2002/812 (Cy.92).**

**Diwygio Rheoliadau Cofrestru Gofal Cymdeithasol a Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2002(3)**

**3.**—(1) Diwygir Rheoliadau Cofrestru Gofal Cymdeithasol a Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2002 yn unol â darpariaethau canlynol y rheoliad hwn.

(2) Yn rheoliad 2 yn y diffiniad o "organisation" ar ôl "corporate" ychwaneger "and, in the case of provision of day care only, a body corporate or unincorporated association".

(3) Dirymir rheoliad 17(1)(e) a (2).

(4) Yn rheoliad 17(1)(d) dileer y geiriau "except where paragraph (2) applies,".

(5) Yn Atodlen 7, paragraff 2(a), ar ôl "and" ychwaneger ", where the organisation is a body corporate,";

(6) Yn Atodlen 8, paragraff 5, rhodder "a corporate body" yn lle "an organisation".

**Dirymu**

**4.** Mae Rheoliadau Deddf Plant 1989 (Diwygio Rheoliadau Amrywiol) (Cymru) 2009(**4**) wedi eu dirymu.

*Jane Hutt*
Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru.

9 Rhagfyr 2009

(**3**) **O.S. 2002/919 (Cy.107).**
(**4**) O.S. 2009/3041 (Cy.265).

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu Rheoliadau Deddf Plant 1989 (Diwygio Rheoliadau Amrywiol) (Cymru) 2009 a oedd yn cynnwys gwallau drafftio.

Estynnwyd gan Ddeddf Plant 2004 ystyr “organisation” yn Neddf Plant 1989 i gynnwys cymdeithas anghorfforedig. Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i Reoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2002 ac i Reoliadau Cofrestru Gofal Cymdeithasol a Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2002 i roi effaith weinyddol i'r diwygiad hwnnw. Maent hefyd yn diwygio'r atodlen sy'n rhestru'r dogfennau a'r wybodaeth y mae'n ofynnol i geisydd sydd am gael ei gofrestru eu darparu pan fo person wedi ei benodi i fod â gofal am ofal dydd